**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Y Pwyllgor Menter a Busnes

# Teithio Llesol: Dechrau'r Daith

Chwefror 2016

Cynulliad
Cenedlaethol
Cymru

National
Assembly for
Wales

# Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r adroddiad hwn ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol:
**www.cynulliad.cymru**

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:


Y Pwyllgor Menter a Busnes
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

Ffôn: 0300 200 6565
E-bost: SeneddBusnes@cynulliad.cymru
Twitter: @SeneddBusnes



© Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2016
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Y Pwyllgor Menter a Busnes

# Teithio Llesol: Dechrau'r Daith

Chwefror 2016

Cynulliad
Cenedlaethol
Cymru

National
Assembly for
Wales

# Y Pwyllgor Menter a Busnes

Sefydlwyd y Pwyllgor ar 22 Mehefin 2011. Ei gylch gwaith yw archwilio deddfwriaeth a dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif drwy graffu ar ei gwariant, ei gweinyddiaeth a'i pholisïau, gan gwmpasu datblygu economaidd; trafnidiaeth a seilwaith; cyflogaeth; addysg uwch a sgiliau; ac ymchwil a datblygu, gan gynnwys technoleg a gwyddoniaeth.

---

**Aelodau cyfredol y Pwyllgor**



**William Graham (Cadeirydd)**
Ceidwadwyr Cymreig
Dwyrain De Cymru



**Mick Antoniw**
Llafur Cymru
Pontypridd



**Mohammad Asghar**
Ceidwadwyr Cymreig
Dwyrain De Cymru



**Jeff Cuthbert**
Llafur Cymru
Caerffili



**Keith Davies**
Llafur Cymru
Llanelli



**Dafydd Elis-Thomas**
Plaid Cymru
Dwyfor Meirionnydd



**Rhun ap Iorwerth**
Plaid Cymru
Ynys Môn



**Eluned Parrott**
Democratiaid Rhyddfrydol Cymru
Canol De Cymru



**Gwenda Thomas**
Llafur Cymru
Castell-nedd



**Joyce Watson**
Llafur Cymru
Canolbarth a Gorllewin Cymru

---

## Argymhellion

**Argymhelliad 1.** Dylai Llywodraeth Cymru osod llinell benodol yn y gyllideb i gefnogi teithio llesol. Dylid defnyddio'r gyllideb teithio llesol i gefnogi prosiectau seilwaith teithio llesol a hyrwyddo teithio llesol fel ei gilydd.

**Argymhelliad 2.** Yn unol â'r argymhellion yn adroddiad annibynnol yr Athro Stuart Cole i'r Gweinidog ar deithio llesol, dylid adolygu lefel y cyllid ar gyfer teithio llesol.

**Argymhelliad 3.** Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod gan y tîm trafnidiaeth ddigon o arbenigedd a chapasiti i wneud asesiad o'r Mapiau Llwybrau Presennol a'r Mapiau Rhwydwaith Integredig y mae awdurdodau lleol yn eu paratoi.

**Argymhelliad 4.** Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod digon o adnoddau ar gael i awdurdodau lleol ddatblygu eu Mapiau Rhwydwaith Integredig.

**Argymhelliad 5.** Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod y cyhoedd yn gallu cael gafael ar y wybodaeth y mae'n ei chadw yn ei system ganolog ar gyfer cofnodi data, yn enwedig i'w defnyddio mewn apiau mapio.

**Argymhelliad 6.** Dylai Llywodraeth Cymru gychwyn ymgyrch genedlaethol ar lefel poblogaeth i hybu buddion teithio llesol. Dylai'r ymgyrch gynnwys ffyrdd o geisio ennyn diddordeb pob rhan o gymdeithas Cymru, gan gynnwys grwpiau anodd eu cyrraedd.

**Argymhelliad 7.** Dylai'r Gweinidog ystyried y ffordd orau o ymgysylltu â'r Bwrdd a sicrhau ei fod yn rhoi'r Ddeddf ar waith yn effeithiol.

**Argymhelliad 8.** Dylai'r Cynllun Teithio Llesol gynnwys datganiad o uchelgais sy'n gosod targedau ar gyfer cynyddu nifer y teithiau cerdded a beicio yng Nghymru. Dylai hefyd ddangos sut y bydd pob un o adrannau Llywodraeth Cymru yn hyrwyddo ac yn cefnogi teithio llesol.

## Rhagair y Cadeirydd



Craffodd y Pwyllgor Menter a Busnes ar y Bil Teithio Llesol (Cymru) yn wreiddiol yng ngwanwyn 2013. Gan fod Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013 bellach mewn grym ers ychydig dros flwyddyn, mae'n gyfle delfrydol i wneud gwaith craffu cynnar ar ôl deddfu ynghylch sut y mae'n cael ei rhoi ar waith.

Mae'n Ddeddf uchelgeisiol. Ei nod yw creu Cymru fwy iach, ffyniannus, cyfartal a gwyrdd drwy annog pobl o bob oedran a gallu i gerdded a beicio mwy. Mae hyn yn gofyn am newid ymddygiad yn ogystal â buddsoddi mewn seilwaith.

Gwahoddwyd pobl â chyfrifoldeb dros wneud newidiadau ar lawr gwlad, a'r rheini sydd eisiau eu gweld yn llwyddiant, i rannu eu barn gyda ni am y cynnydd hyd yn hyn. Er iddynt ddweud yn eglur iawn y bu llwyddiannau cynnar, roeddent hefyd yn rhwystredig iawn nad yw'r Ddeddf yn cael ei rhoi ar waith i'w llawn botensial.

Mae'r Ddeddf hon yn gyfle gwych i Gymru arwain y ffordd o ran annog teithio llesol yn y DU. Mae teithio llesol yn sail i gynifer o'r agendâu trawsbynciol rydym eisiau eu gwella – fel gwella iechyd a llesiant; trechu tlodi; diogelu'r amgylchedd a gwella ffyniant economaidd. Mae angen i ni osod y sylfeini cywir yn y blynyddoedd cynnar wrth roi'r Ddeddf hon ar waith neu byddwn yn colli'r buddion hynny am genhedlaeth arall.



William Graham AC
Cadeirydd y Pwyllgor Menter a Busnes

# Cefndir

Daeth Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013 i rym ar 25 Medi 2014. Roedd y Pwyllgor Menter a Busnes, a graffodd ar y bil wrth iddo fynd drwy'r Cynulliad, eisiau ystyried sut mae'n cael ei rhoi ar waith. Mae'r adroddiad hwn yn asesu i ba raddau y mae Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol wedi llwyddo i gyflawni eu dyletswyddau.

### Y Ddeddf

Mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol wella cyfleusterau a llwybrau i gerddwyr a beicwyr yn barhaus, a pharatoi mapiau sy'n nodi llwybrau presennol a llwybrau yn y dyfodol. Mae hefyd yn rhagnodi y dylid cynllunio ffyrdd mewn ffordd sy'n ystyried anghenion cerddwyr a beicwyr. Mae'n ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol gyhoeddi mapiau o'u llwybrau ar faint o deithio llesol y mae pobl yn ei wneud a chyflwyno adroddiad.

Mae'r Ddeddf hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i Lywodraeth Cymru lunio adroddiad blynyddol ar deithio llesol, ac i Lywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol hyrwyddo teithio llesol.

Ceir rhagor o wybodaeth yn Nodiadau Esboniadol y Ddeddf. Mae rhagor o wybodaeth am waith y Pwyllgor ar y Ddeddf ar gael yma:

www.senedd.cynulliad.cymru/mgIssueHistoryHome.aspx?IId=5750

### Cynnydd hyd yn hyn

Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi:

- Cyfarwyddyd Ardaloedd Dynodedig,
- Canllawiau ar Ddylunio,
- Canllawiau ar Gyflenwi a'r
- Adroddiad Blynyddol cyntaf ar Deithio Llesol

Sefydlodd John Griffiths, y cyn-Weinidog Diwylliant a Chwaraeon, y Bwrdd Teithio Llesol cyntaf i gydgysylltu gweithgarwch i helpu i roi'r Ddeddf ar waith. Ei Gadeirydd annibynnol presennol yw'r Athro Emeritus Stuart Cole. Daw aelodau'r Bwrdd o adrannau Llywodraeth Cymru (Iechyd, Addysg, Cyfoeth Naturiol a'r Economi a Thrafnidiaeth), awdurdodau lleol, y trydydd sector, Iechyd Cyhoeddus Cymru a Cyfoeth Naturiol Cymru. Mae'r Bwrdd yn cwrdd dair gwaith y flwyddyn.

# 1. Cyllid ac adnoddau

**Argymhellion:**

**Dylai Llywodraeth Cymru osod llinell benodol yn y gyllideb i gefnogi teithio llesol. Dylid defnyddio'r gyllideb teithio llesol i gefnogi prosiectau seilwaith teithio llesol a hyrwyddo teithio llesol fel ei gilydd.**

**Yn unol â'r argymhellion yn adroddiad annibynnol yr Athro Stuart Cole i'r Gweinidog ar deithio llesol, dylid adolygu lefel y cyllid ar gyfer teithio llesol.**

**Y prif faterion a godwyd gan randdeiliaid:**

- Roedd rhanddeiliaid yn croesawu'r Ddeddf. Fodd bynnag, maent yn dweud bod diffyg cyllid yn amharu'n sylweddol ar allu awdurdodau lleol i'w rhoi ar waith. Nid oes unrhyw arian newydd ar gael ac eithrio £300,000 ar gyfer mapio ar draws pob awdurdod lleol.
- Mynegodd y Pwyllgor bryderon ynghylch cyllid ar gyfer rhoi'r Ddeddf ar waith yn ei Adroddiad Cyfnod 1 ar y Bil yn 2013 (paragraffau 325-329).
- Mae'n rhaid i awdurdodau lleol wneud cais am symiau bach o arian Llywodraeth Cymru, a hynny mewn cystadleuaeth â phrosiectau trafnidiaeth eraill. Mae'r ffaith y rhoddir cyllid yn flynyddol ar gyfer cynlluniau trafnidiaeth yn golygu na all awdurdodau lleol gynllunio teithio llesol yn strategol.
- Dywedodd rhanddeiliaid wrthym fod Cymru ond yn gwario £3 y pen y flwyddyn ar deithio llesol. Maent yn dweud bod angen i hyn godi i £10 y pen er mwyn cael effaith wirioneddol. Yn ei Adroddiad Annibynnol i'r Gweinidog ar Deithiol Llesol yn ddiweddar, dywedodd yr Athro Stuart Cole mai'r gwariant cyfredol yw £5 y pen y flwyddyn, gan nodi bod rhannau eraill o'r DU yn gwario £10 y pen, ac y byddai angen gwariant o £20 pen i gyrraedd y lefelau teithio llesol yn yr Iseldiroedd.
- Clywodd y Pwyllgor alwadau i gyllid gael ei ddargyfeirio i deithio llesol o fathau eraill o drafnidiaeth. Pe bai cyllid yn cael ei

drosglwyddo o drafnidiaeth fodurol i gerdded a beicio, byddai Llywodraeth Cymru yn cyfleu'r neges ei bod yn symud gwariant yn unol â'i blaenoriaethau.

- Fodd bynnag, mae rhanddeiliaid yn deall bod pwysau ar gyllidebau a hoffent weld cronfa ariannol benodedig ar gyfer teithio llesol, hyd yn oed os nad oes modd cynnig cyllid ychwanegol.
- Dylai teithio llesol fod yn rhan o bob prosiect gwariant mawr sydd ar y gweill i Gymru. Er enghraifft, dylai prosiect trafnidiaeth y Metro, datblygiadau'r Dinas-Ranbarthau a datblygiadau tai mawr oll ganiatáu teithio llesol. Dylai fod lle i feiciau ar drenau a bysiau prosiect y Metro.
- Mae rhanddeiliaid yn dweud bod angen i awdurdodau lleol ddangos ewyllys i flaenoriaethu teithio llesol, ar lefel wleidyddol ac ymysg uwch-reolwyr. Roedd rhanddeiliaid yn cyferbynnu agweddau awdurdodau lleol â swyddogion awyddus, a'r rheini lle mae staff yn ystyried teithio llesol yn ychwanegiad i'w llwythi gwaith presennol. Mae hyn yn arwain at anghysondeb ar draws Cymru.

**Ymateb Llywodraeth Cymru**

- Yn ystod cyfarfod y Pwyllgor ar 20 Ionawr, croesawodd Aelodau'r Pwyllgor y cadarnhad gan y Gweinidog y bydd y cyllid ar gyfer seilwaith teithio llesol yn cael ei symud o gylch blynyddol i gylch dangosol o dair blynedd er mwyn helpu awdurdodau lleol.
- Hefyd, croesawodd y Pwyllgor yr addewid gan y Gweinidog i ymchwilio a oes modd coladu faint sy'n cael ei wario ar deithio llesol ar draws holl adrannau Llywodraeth Cymru, awdurdodau lleol a byrddau iechyd.
- Croesawodd y Pwyllgor ymrwymiad y Gweinidog i roi dadansoddiad iddo o'r cyllid cyfalaf o £24 miliwn y dywedodd ei fod wedi'i ddyrannu i gynlluniau teithio llesol yng Nghyllideb 2016/17.

## 2. Y broses fapio

**Argymhellion**

**Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod gan y tîm trafnidiaeth ddigon o arbenigedd a chapasiti i wneud asesiad o'r Mapiau Llwybrau Presennol a'r Mapiau Rhwydwaith Integredig y mae awdurdodau lleol yn eu paratoi.**

**Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod digon o adnoddau ar gael i awdurdodau lleol ddatblygu eu Mapiau Rhwydwaith Integredig.**

**Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod y cyhoedd yn gallu cael gafael ar y wybodaeth y mae'n ei chadw yn ei system ganolog ar gyfer cofnodi data, yn enwedig i'w defnyddio mewn apiau mapio.**

**Y prif faterion a godwyd gan randdeiliaid:**

***Archwilio mapiau llwybrau presennol***

- Croesawyd y mapiau gan y rhanddeiliaid fel ffordd o safoni gwybodaeth ledled Cymru. Maent yn cydnabod potensial yr adnodd hwn i hyrwyddo teithio llesol yng Nghymru.
- Mae diffyg hyfforddiant wedi cyfrannu at anghysondeb yn y ffordd y mae awdurdodau lleol wedi archwilio llwybrau presennol. Gallai hyn olygu nad oes gennym ddarlun cyflawn o'r llwybrau presennol.
- Cafodd y dyddiad cau ar gyfer llunio Mapiau Llwybrau Presennol o fis Medi 2015 i fis Ionawr 2016 er mwyn caniatáu i awdurdodau lleol ymgynghori'n briodol, yn enwedig gyda phlant a phobl ifanc. Roedd y rhanddeiliaid yn awgrymu nad yw pob awdurdod lleol wedi gwneud y defnydd gorau o'r amser ymgynghori ychwanegol.
- Dywedodd rhanddeiliaid fod Llywodraeth Cymru yn araf yn cyhoeddi canllawiau statudol. Roedd rhanddeiliaid hefyd yn rhwystredig na chychwynnodd yr hyfforddiant ar y Canllawiau ar Ddylunio tan fis Tachwedd 2015. Clywsom sylwadau mai rheswm arall i Lywodraeth Cymru ymestyn y dyddiad cau ar gyfer mapio oedd oherwydd nad oedd wedi cael trefn ar bethau.

- Mae rhai grwpiau pobl anabl yn dweud eu bod yn anfodlon ar yr agwedd ynghylch rhannu gofod yn y canllawiau ar ddylunio. Roedd y rhan fwyaf o randdeiliaid yn cytuno bod angen gwella'r agwedd hon.
- Galwodd rhanddeiliaid am adnodd penodedig ar gyfer y broses fapio ymysg awdurdodau lleol. Roedd rhai sylwadau'n nodi bod y broses wedi dod yn fater o dicio blychau.
- Hoffai rhanddeiliaid deall yn well sut y caiff Mapiau Llwybrau Presennol a Mapiau Rhwydwaith Integredig eu hasesu. Ceir pryder hefyd a oes gan dîm trafnidiaeth Llywodraeth Cymru ddigon o adnoddau ac arbenigedd i wneud hyn.
- Mae angen mwy o arbenigedd ym maes teithio llesol. Roedd rhanddeiliaid yn cwestiynu a oes gan Lywodraeth Cymru ddigon o arbenigedd i asesu'r Mapiau Llwybrau Presennol a bwrw ymlaen yn wirioneddol â'r agenda hon.
- Roedd rhai rhanddeiliaid yn galw am archwiliad o'r llwybrau teithio llesol y mae pobl eisoes yn eu defnyddio, ac yn nodi y dylai gwelliannau yn y dyfodol ddatblygu’r llwybrau y mae'n well gan bobl eu defnyddio nawr.
- Mae angen i'r sancsiynau am ddiffyg cydymffurfiaeth fod yn fwy eglur ac yn llymach. Ar hyn o bryd, y peth gwaethaf a all ddigwydd yw nad yw map yr awdurdod lleol yn cael ei gymeradwyo.

***System ganolog ar gyfer cofnodi data***

Datblygodd Llywodraeth Cymru system ganolog ar gyfer cofnodi data i helpu awdurdodau lleol i gyflawni eu dyletswyddau o dan y Ddeddf.

- Dywedodd rhanddeiliaid fod Llywodraeth Cymru yn gywir yn sefydlu un set ddata sy'n genedlaethol gyson ar draws ffiniau awdurdodau lleol, ond y bu rhai problemau cychwynnol â'r system ganolog ar gyfer cofnodi data, sydd wedi bod yn anodd ei defnyddio yn dechnegol.
- Y disgwyliad ar ddechrau'r broses oedd y byddai'r data sy'n cael eu cadw yn system ganolog Llywodraeth Cymru ar gael yn rhwydd i ddatblygwyr apiau/mapiau (fel Google Maps). Fodd bynnag, mae rhanddeiliaid yn dweud nad yw'r data ar gael yn rhwydd hyd yn hyn.

- Galwodd rhanddeiliaid am fwy o ymdrechion i weithio gyda Google i ddangos y llwybrau mwyaf diogel a chyfleus i'w defnyddio, gan ychwanegu y dylid dyrannu cyllid i sicrhau bod hyn yn digwydd, os nad yw'n digwydd fel arall.
- Cafwyd galw am eglurder ynghylch pwy sy'n berchen ar y data a phwy sy'n ei gynnal a'i gadw. Mae'n bwysig cynnal a chadw'r data, neu nid oes modd asesu gwelliannau dros flynyddoedd. Cafwyd galw am adolygiad o'r ymarfer mapio cyn cynnal yr un nesaf.

**Ymateb Llywodraeth Cymru**

Roedd tystiolaeth ysgrifenedig y Gweinidog yn nodi:

- Ar ôl gwerthuso'r Mapiau Llwybrau Presennol, bydd swyddogion yn gwahodd awdurdodau lleol i weithdai rhanbarthol i gofnodi'r profiadau a'r gwersi o'r flwyddyn gyntaf o roi'r Ddeddf ar waith, yn enwedig y profiad o baratoi'r Mapiau Llwybrau Presennol, ymgynghori arnynt a defnyddio'r Canllawiau ar Ddylunio i asesu a chynllunio llwybrau teithio llesol.
- Rydym yn cydnabod bod y gwaith i gynnal yr arolwg cychwynnol yn debygol o achosi problemau i nifer o awdurdodau lleol oherwydd cyfyngiadau staff. Aethom ati i leddfu hyn drwy gomisiynu arolwg i ymdrin â'r holl ardaloedd dynodedig yn ganolog. Rydym wedi ychwanegu mwy o werth drwy greu system cofnodi data ar gyfer Cymru gyfan sydd ar gael i bob awdurdod lleol wrth iddynt fapio a chynllunio eu llwybrau teithio llesol, ac a fydd yn cael ei defnyddio i greu'r mapiau gofynnol mewn fformat cyson.
- Pan gymerodd y gwaith arolwg yn hwy na'r disgwyl, cafodd y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno Mapiau Llwybrau Presennol ei ymestyn i roi digon o amser i awdurdodau lleol ymgynghori. Rydym yn parhau i ddarparu hyfforddiant yn ôl y galw ar y system hon i fynd i'r afael ag unrhyw rwystrau o ran sgiliau a gwybodaeth. Hefyd, rydym wedi darparu hyfforddiant ar y Canllawiau ar Ddylunio a byddwn yn cofnodi profiadau a gwersi a ddysgwyd yn y gweithdai rhanbarthol sydd wedi'u cynllunio ar ôl i'r Mapiau Llwybrau Presennol gael eu gwerthuso.

Yng nghyfarfod y Pwyllgor Menter a Busnes ar 20 Ionawr, dywedodd Llywodraeth Cymru mai ei bwriad oedd caniatáu i'r cyhoedd gael y data

sydd ganddi ar gyfer apiau fel Google Maps i'w gwneud yn fwy hygyrch.

# 3. Hyrwyddo

**Argymhelliad:**

**Dylai Llywodraeth Cymru gychwyn ymgyrch genedlaethol ar lefel poblogaeth i hybu buddion teithio llesol. Dylai'r ymgyrch gynnwys ffyrdd o geisio ennyn diddordeb pob rhan o gymdeithas Cymru, gan gynnwys grwpiau anodd eu cyrraedd.**

**Y prif faterion a godwyd gan randdeiliaid:**

- Diben y Ddeddf yw newid ymddygiad, felly er mwyn llwyddo mae'n hanfodol hyrwyddo teithio llesol yn effeithiol. Hoffai rhanddeiliaid weld gweithredu cydgysylltiedig yn hytrach na'r dull mympwyol presennol.
- Mae rhoi mwy o gyfle i gerdded a beicio yn cynnig manteision ar draws ystod eang o feysydd polisi, fel iechyd y cyhoedd (e.e. mynd i'r afael â gordewdra). Mae angen cydgysylltu'n well ar draws Llywodraeth Cymru ac adrannau awdurdodau lleol i gefnogi a hyrwyddo teithio llesol.
- Mae rhanddeiliaid yn credu y gellid gwella sgiliau ymgynghori awdurdodau lleol, a bod y cyhoedd yn blino ar ymgynghori. Maent yn dweud bod angen canllawiau arfer da ar ymgynghori gan Lywodraeth Cymru.
- Maent hefyd yn dweud bod angen gwneud gwaith i oresgyn y rhwystrau sy'n atal pobl rhag cerdded a beicio, e.e. arwyddion gwael ar lwybrau presennol a'r statws isel canfyddedig sydd gan gerdded a beicio. Hefyd, mae rhwystrau penodol sy'n effeithio ar bobl hŷ n ac anabl, fel diffyg seddi ar lwybrau, a darpariaeth toiledau ac ymwybyddiaeth ohonynt.
- Yn y cyfnod dylunio, mae'n rhaid sicrhau bod seilwaith Cymru yn hyrwyddo teithio llesol, er enghraifft ni ddylai cerddwyr orfod croesi'r ffordd dair gwaith wrth gyffordd.
- Roedd y rhwystrau canfyddedig rhag cerdded a beicio yn cynnwys diogelwch ar y ffyrdd. Dylai fod mwy o barthau 20 m.y.a. a dyddiau di-geir yng Nghymru. Mae ar rieni ofn gadael i'w plant gerdded i'r ysgol pan fydd cynifer o geir wedi parcio tu allan ac ar balmentydd cyfagos.

- Mae angen integreiddio teithio llesol â thrafnidiaeth gyhoeddus. Er enghraifft, dylai manylebau'r Metro gynnwys y gallu i fynd â beiciau ar drenau a bysiau.
- Mae posibilrwydd hyrwyddo drwy fentrau eraill fel cynlluniau Ysgolion Iach a Safonau Iechyd Corfforaethol.
- Mae angen rhoi neges glir i gynllunwyr, drwy Bolisi Cynllunio Cymru, bod angen iddynt gymryd lle ar y ffyrdd oddi wrth geir, e.e. llai o leoedd parcio mewn datblygiadau newydd, ac mae angen i'r Llywodraeth fod yn hyderus y bydd datblygwyr yn parhau i adeiladu er gwaethaf y cyfyngiadau hyn.
- Mae angen ymgyrch gyhoeddusrwydd ar raddfa eang i ddangos sut gellir trawsnewid bywydau pobl. Dylai ganolbwyntio ar grwpiau anodd eu cyrraedd yn ogystal â'r boblogaeth gyffredinol.
- Mae gostyngiad wedi bod yn y cyllid ar gyfer hyrwyddo teithio llesol mewn ysgolion. Hefyd, mae'r cwmpas wedi ehangu, o edrych ar feicio yn unig i edrych ar gerdded a beicio. Roedd y gwaith hyrwyddo yn arfer canolbwyntio ar ardaloedd penodol, ond mae bellach yn canolbwyntio ar Gymru gyfan. Roedd rhanddeiliaid yn pryderu bod y gwaith yn cael ei wanhau.
- Dylid hyrwyddo teithio llesol ar draws holl adrannau'r Llywodraeth, e.e. Ysgolion ar gyfer yr 21ain Ganrif a mentrau i annog pobl i gael gwaith. Nid yw buddion teithio llesol o ran iechyd yn cael eu hyrwyddo'n ddigonol.
- Nodwyd y gall unigolion brwdfrydig mewn awdurdodau lleol wneud gwahaniaeth mawr.
- Cydnabu rhanddeiliaid mai newydd ddechrau y mae’r gwaith ac y bydd yn haws hyrwyddo pan fydd rhwydwaith cydlynol o lwybrau i'w hyrwyddo.

**Ymateb Llywodraeth Cymru**

Roedd tystiolaeth ysgrifenedig y Gweinidog yn nodi:

> Er mwyn newid y diwylliant ddigon i hyn allu digwydd, mae’r Ddeddf a’i chanllawiau’n pwysleisio’r angen i ymgysylltu ac ymgynghori bob cam o’r ffordd. Nid â cherddwyr a seiclwyr yn unig ond hefyd â defnyddwyr posibl gyda golwg ar helpu i weld beth sy’n rhwystro pobl rhag cerdded a seiclo a’u datrys trwy’r

> broses blaenoriaethu gwelliannau... Yn ôl y Ddeddf, mae angen i awdurdodau lleol a Gweinidogion Cymru hyrwyddo teithio llesol i gyd-fynd â'r gwelliannau hyn i'r seilwaith. Rwyf wedi creu contract newydd tair blynedd i Hyrwyddo Teithio Llesol mewn Ysgolion. Bydd y contract yn sicrhau cysylltiadau cryfach â llawer o ysgolion cynradd ac uwchradd sydd wedi cael eu dewis trwy broses arfarnu a bydd hefyd yn neilltuo adnoddau a chefnogaeth i bob ysgol ledled Cymru.

Mae papur y Gweinidog yn pwysleisio bod angen ymgysylltu ac ymgynghori â'r cyhoedd ar bob cam, ac yn nodi bod y Gynhadledd Flynyddol Teithio Llesol, a gynhaliwyd ym mis Tachwedd, yn canolbwyntio ar newid diwylliant drwy ehangu apêl cerdded a beicio.

Mae'r Adroddiad Blynyddol Teithio Llesol yn nodi bod Llywodraeth Cymru yn ariannu Cydgysylltwyr Cynlluniau Teithio sy'n gweithio ledled Cymru. Eu nod yw helpu cyflogwyr cyhoeddus a phreifat i ddatblygu cynlluniau teithio, annog mwy o bobl i gerdded a beicio, a lleihau dibyniaeth ar geir preifat. Mae'r adroddiad yn nodi bod yr Her Genedlaethol Teithio Llesol yn ategu hyn (dan arweiniad Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol Llywodraeth Cymru).

# 4. Arweinyddiaeth

**Argymhellion:**

**Dylai'r Gweinidog ystyried y ffordd orau o ymgysylltu â'r Bwrdd a sicrhau ei fod yn rhoi'r Ddeddf ar waith yn effeithiol.**

**Dylai'r Cynllun Teithio Llesol gynnwys datganiad o uchelgais sy'n gosod targedau ar gyfer cynyddu nifer y teithiau cerdded a beicio yng Nghymru. Dylai hefyd ddangos sut y bydd pob un o adrannau Llywodraeth Cymru yn hyrwyddo ac yn cefnogi teithio llesol.**

**Y prif faterion a godwyd gan randdeiliaid:**

- Mae rhanddeiliaid yn pryderu am ddiffyg arweinyddiaeth gan Lywodraeth Cymru o ran hyrwyddo'r agenda teithio llesol yng Nghymru. Mae enghreifftiau o hyn yn cynnwys: diffyg cyllid penodedig, yr amser a gymerwyd i gychwyn y Ddeddf a chyhoeddi canllawiau, a'r diffyg cydgysylltu o ran hyrwyddo.
- Yr arwydd mwyaf eglur o flaenoriaeth yw faint o gyllid sy'n cael ei ddyrannu. Roedd rhanddeiliaid yn hynod feirniadol o'r cyllid sydd wedi'i ddyrannu hyd yn hyn.
- Dywedodd rhanddeiliaid wrthym eu bod yn siomedig ynghylch yr oedi o ran cyhoeddi'r Cynllun Gweithredu Teithio Llesol nesaf, ac nad yw'r ymatebion i ymgynghoriad y cynllun gweithredu wedi'u cyhoeddi hyd yn hyn. Maent hefyd yn siomedig bod cyfraniad y Bwrdd Teithio Llesol wedi bod yn gyfyngedig yn eu barn hwy o ran datblygu'r cynllun gweithredu newydd.
- Mae angen uchelgeisiau a chanlyniadau yn y Cynllun Gweithredu, er enghraifft, ymrwymiad i sicrhau bod cerdded a beicio yn cyfrif am o leiaf 10% o deithiau yng Nghymru. Dylai osod llinell sylfaen ar gyfer teithio llesol a tharged clir, gyda chamau realistig i'w gyflawni.
- Mae rhanddeiliaid yn dweud nad yw teithio llesol yn cael ei integreiddio â deddfwriaeth a pholisïau eraill. Er enghraifft, nid yw teithio llesol yn un o ddangosyddion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, nac yn rhan o Fil Iechyd y Cyhoedd.
- Hefyd, cafwyd galwad am arweinyddiaeth ar lefel leol a chymunedol. Nodwyd bod gan y Byrddau Gwasanaethau

Cyhoeddus newydd, a sefydlwyd o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, rôl arweinyddiaeth allweddol o ran sicrhau bod cynnydd yn digwydd.

- Dywedodd rhanddeiliaid nad yw Llywodraeth Cymru yn manteisio ar arbenigedd y Bwrdd Teithio Llesol. Roeddent yn galw am rôl fwy eglur i'r Bwrdd ac ymrwymiad mwy cadarn gan Lywodraeth Cymru i helpu'r Bwrdd i fod yn fwy uchelgeisiol. Dywedwyd wrthym nad yw Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth yn bresennol yng nghyfarfodydd y Bwrdd Teithio Llesol, ac mai'n anghyson y bydd cynrychiolwyr o adrannau'r Llywodraeth yn bresennol. Mae aelodau'r Bwrdd yn teimlo bod hyn yn tanseilio statws y Bwrdd ac yn dangos nad yw'r Gweinidog yn rhoi llawer o bwys i deithio llesol.
- Dylai teithio llesol fod yn rhan o holl bolisïau Llywodraeth Cymru; er enghraifft, dylai'r Bil Cynllunio a Bil Iechyd y Cyhoedd gynnwys dyletswydd i ystyried teithio llesol.
- Dylid cydnabod y ffordd y gall teithio llesol hyrwyddo buddion economaidd; dylai hyn fod yn rhan annatod o'r Dinas-Ranbarthau newydd a'r Metro.
- Hoffai rhanddeiliaid weld Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn bod yn fwy rhagweithiol o ran dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif o ran craffu ar y gefnogaeth ar gyfer teithio llesol.

**Ymateb Llywodraeth Cymru**

Roedd tystiolaeth ysgrifenedig y Gweinidog yn nodi na all Llywodraeth Cymru wireddu'r buddion hyn ar ei phen ei hun: 'rhaid wrth gydweithio rhwng y sector cyhoeddus cyfan, partneriaid y trydydd sector, busnesau yng Nghymru a hefyd pobl, rhieni, athrawon, cymudwyr a siopwyr'.

Mae rhan arall o'r papur yn pwysleisio bod y Ddeddf yn ei blwyddyn lawn gyntaf ac felly nad yw'r gwaith ond yn dechrau, a bod y broses o'i rhoi ar waith yn debygol o ddioddef os nad oes ymrwymiad, adnoddau neu sgiliau ar gael. Mae'r papur yn nodi bod Llywodraeth Cymru wedi cymryd nifer o gamau i fynd i'r afael â rhwystrau o ran rhoi'r Ddeddf ar waith:

- Cydnabod bod cyfyngiadau o ran staff mewn awdurdodau lleol;
- Comisiynu arolwg canolog ar gyfer yr holl ardaloedd dynodedig yng Nghymru;
- Creu system cofnodi data ar gyfer Cymru gyfan;
- Ymestyn y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno Mapiau Llwybrau Presennol i roi digon o amser i awdurdodau lleol ymgynghori; a
- Darparu hyfforddiant, gan gynnwys ar y Canllawiau ar Ddylunio.

Mae papur y Gweinidog yn nodi bod buddion teithio llesol yn cwmpasu sbectrwm eang iawn a bod modd eu mesur yn erbyn pob un o'r saith nod yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Mae'n nodi y caiff y Cynllun Gweithredu ei gwblhau ym mis Chwefror:

> Gwnaethom ymgynghori ar Gynllun Gweithredu Teithio Llesol llynedd. Yr hyn a glywyd yn yr ymateb i'r ymgynghoriad a chan y Bwrdd Teithio Llesol... oedd y byddai'r Cynllun Gweithredu ar ei fantais pe bai'n dilyn trywydd gwahanol a phe bai ganddo strwythur gwahanol. Penderfynon ni hefyd alinio'r Cynllun yn nes at nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Yng nghyfarfod y Pwyllgor ar 20 Ionawr 2016, roedd Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth yn anghytuno â'r awgrym y byddai ei phresenoldeb yng nghyfarfodydd y Bwrdd Teithio Llesol yn arwydd o fwy o ymrwymiad i'r agenda, gan ddweud:

> "I am content that I have the expertise within that panel, with an excellent chair, to advise me appropriately." (paragraff 41)

## Casgliadau

Mae'r Pwyllgor Menter a Busnes yn cymeradwyo uchelgais y Ddeddf, sy'n ceisio sicrhau bod ei bod yn beth arferol cerdded a beicio i'r ysgol, gwaith a gweithgareddau eraill. Rydym yn gwybod bod y Ddeddf yn ei dyddiau cynnar, ond rydym eisiau sicrhau bod seiliau cadarn yn cael eu gosod nawr er mwyn trosglwyddo i ffyrdd mwy iach a gwyrdd o deithio.

Mae'r Pwyllgor yn pryderu a oes cyllid ac adnoddau digonol ar gael i gefnogi'r Ddeddf. Rydym yn pryderu nad yw’r agenda hon wedi symud yn ei blaen, yn enwedig o ran y ffordd y gallai’r ffordd y caiff cyllid ei ddyrannu fod wedi amharu ar brosiectau uchelgeisiol. Bydd trosglwyddo i ddyraniadau dangosol tair blynedd yn ei gwneud yn haws cynllunio prosiectau seilwaith, ond bydd datblygiad yn parhau i fod yn araf heb gynnydd yng nghyfran y gyllideb drafnidiaeth sydd ar gael i deithio llesol.

Roedd y Pwyllgor yn credu bod hyrwyddo'r agenda teithio llesol yn hanfodol i newid diwylliant. Rydym yn galw am ymgyrch hyrwyddo genedlaethol i ddangos manteision teithio llesol i'r rheini sy'n ei chael yn anoddaf cymryd rhan. Mae angen i bob Gweinidog hyrwyddo'r agenda hon ar draws y llywodraeth gyfan. Mae angen i bob adran ddangos pa gamau y mae’n eu cymryd i gynyddu lefelau teithio llesol yng Nghymru.

Bydd hyn yn golygu gwneud rhai penderfyniadau sy'n blaenoriaethu teithio llesol dros foduron ac ailddyrannu gofod ac adnoddau i gefnogi'r nod hwn. Ni fydd hyn ond yn gweithio os yw Llywodraeth Cymru yn ddigon hyderus i fwrw ymlaen â'r hyn y mae wedi'i gychwyn gyda'i deddfwriaeth ei hun. Mae'r Pwyllgor yn pryderu, o ystyried tystiolaeth y flwyddyn a hanner gyntaf, bod ymrwymiad y Llywodraeth i'r agenda hon wedi dechrau diffygio cyn i bethau gychwyn go iawn.

## 5. Casglu tystiolaeth

Gwahoddodd y Pwyllgor Menter a Busnes amryw randdeiliaid i ymchwiliad undydd ar 20 Ionawr 2016 i weld sut mae'r holl gyrff perthnasol yn paratoi ar gyfer eu rhwymedigaethau newydd ac yn eu cyflawni.

Mae'r Pwyllgor yn ddiolchgar i'r rhanddeiliaid a ganlyn am gyfrannu at ein trafodaeth bwrdd crwn:

Access Design Solutions
CTC, yr elusen feicio genedlaethol
Anabledd Cymru
Exegesis
Cŵn Tywys Cymru
Sefydliad y Peirianwyr Sifil
Living Streets
Chwarae Teg
Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr
Pedal Power
Yr Athro Colin G Pooley, Prifysgol Caerhirfryn
Iechyd Cyhoeddus Cymru
Cymdeithas y Cerddwyr Cymru
Y Sefydliad Cynllunio Trefol Brenhinol
Sustrans
Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru
RNIB Cymru